# Syrfëwr Rheolaeth Adeiladu

## Pecyn Recriwtio






LABC

CYNGOR GWYNEDD

# Croeso

Diolch am ddangos diddordeb mewn gwneud cais ar gyfer y swydd hon. Mae Gwynedd yn adnabyddus am ei harddwch naturiol, ond mae'r Sir yn unigryw ac amrywiol a'n huchelgais ni fel Cyngor yw gweld ein cymunedau a'n pobl yn ffynnu.

Mae'r swydd hon yn gyfle gwirioneddol i unigolyn talentog fod yn rhan o'r Tîm Rheolaeth Adeiladu sy'n gweithio'n arloesol, ac er lles ein pobl. Rydym ni'n eithriadol o falch eich bod chi'n ystyried ymuno gyda ni wrth i ni weithio tuag at wireddu ein nodau yn y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu.

Am ragor o fanylion am weithio i'r Cyngor a gwybodaeth am sut i ymgeisio ewch i **www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi** ar wefan Cyngor Gwynedd.

Mae rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu ar gael yma **www.gwynedd.llyw.cymru/RheolaethAdeiladu**

Yn y cyfamser, os hoffech drefnu sgwrs anffurfiol am unrhyw agwedd o'r swydd, cysylltwch â Martin Evans, Rheolwr Rheolaeth Adeiladu ar 01341 424396 / 07917 557701 neu e-bostio: **martinbarrowevans@gwynedd.llyw.cymru**

Edrychwn ymlaen i dderbyn eich cais.



LABC

Rheolaeth Adeiladu

CYNGOR GWYNEDD

# Hysbyseb Swydd

## Syrfëwr Rheolaeth Adeiladu

**£39,862 - £41,771 (Dyafrniad Tâl i'w gadarnhau), ynghyd â £1,800 y flwyddyn pro-rata (Rota Strwythur Peryglus ar ddyletswydd)**
**Cyfanswm gwerth y budd-dal gan gynnwys cyfraniad pensiwn LGPS (£49,944 - £52,459)**

- Trwydded cynnal a chadw blynyddol Arolygydd Adeiladu Cofrestredig BSR a ariennir.
- Cymorth wedi'i ariannu'n llawn i gael Siarter i gorff perthnasol (MCABE/MRICS/MCIOB).
- Gwyliau hael, gwyliau banc, a chynllun oriau ystwyth 'Super-flexitime'.
- Gweithio hyblyg - cyflogwr sy'n ymroddedig i ystyried a chefnogi staff i weithio'n hyblyg, fel modd o gael cydbwysedd iach rhwng ymrwymiadau personol a gwaith.

Mae hwn yn gyfle gyrfa cyffrous i ymuno â Rheolaeth Adeiladu Cyngor Gwynedd.



LABC

Rheolaeth Adeiladu

CYNGOR GWYNEDD

# Gweithio i ni

Ar hyn o bryd, rydym ni'n chwilio am Syrfëwr Rheolaeth Adeiladu Cofrestredig talentog a brwdfrydig i ymuno â'n tîm cyfeillgar a phroffesiynol, sydd ag enw da am gyflwyno gwasanaeth o ansawdd uchel ar draws sir brydferth Gwynedd.

Mae trigolion Gwynedd ymysg yr hapusaf yng Nghymru. Nid yw hyn yn syndod, o ystyried bod mwyafrif helaeth y sir o fewn ardaloedd o harddwch eithriadol, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri. Gydag amgylchedd glân a hamddenol, mae mynyddoedd ac arfordir Gwynedd yn hafan ddelfrydol i adfywio'r enaid. Mae ein cymunedau ymysg y diogelaf yn y wlad, ac mae ein dwyieithrwydd naturiol yn cyfoethogi'r diwylliant lleol ym mhob agwedd o fywyd. Mae'n lle gwych i fagu'r genhedlaeth nesaf, ac mae'r ysgolion a cholegau addysg bellach yn y sir yn cynnig addysg a hyfforddiant heb ei ail. Yn syml, mae Gwynedd yn lle anhygoel i fyw.

Wrth weithio dan gyfarwyddyd yr arweinydd tîm Rheolaeth Adeiladu fe fyddwch yn gyfrifol am gynorthwyo'r Arweinydd Tîm a Syrfewyr Ardal Rheolaeth Adeiladu. Pan fyddwch yn gymwys, byddwch yn gyfrifol o dan oruchwyliaeth ardal ddaearyddol fechan i hybu eich datblygiad hyfforddiant, yn ogystal â chyfrannu at waith ar draws y sir yn ôl yr angen. Bydd hyfforddiant a chymwysterau proffesiynol LABC wedi'u hariannu'n llawn hyd at Lefelau 4 a 5 yn cael hyfforddiant a chymorth mewnol, gan sicrhau dilyniant gyrfa wrth gael trwydded BSR fel Arolygydd Rheoli Adeiladu cofrestredig yn dilyn Deddf Rheoliadau Adeiladu a Diogelwch Adeiladu 2022 diwygiedig.

I fod yn llwyddiannus, bydd gennych ddyheadau i ddatblygu'r gwasanaeth a gweithio ar brosiectau newydd a chyffrous, a darparu gwasanaeth gwych ar gyfer pobl Gwynedd.

Fel tyfiant gwasanaeth, hyfforddiant a datblygiad tîm i ddarparu lefel uchel o wasanaeth yn arloesol yn ystod cyfnod o newid, gyda gweithrediad y ddeddfwriaeth Diogelwch Adeiladu.



# Pam ymuno â Chyngor Gwynedd?

Mae nifer o fanteision o weithio i ni, gan gynnwys:

- Gweithio hyblyg, rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd cefnogi ein gweithwyr i gydbwyso eu bywyd cartref a gwaith ac i allu gweithio yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae cynllun 'Super-Flexitime' hefyd yn cael ei weithredu sy'n gallu helpu i reoli gwaith ac ymrwymiadau personol.
- Hyfforddiant a Datblygiad - dilysiad medrusrwydd a chymwysterau LABC, CPD a digwyddiadau hyfforddiant wedi'u hariannu'n llawn.
- Mae Cynlluniau Aberthu Cyflog yn gwneud arbediadau enfawr gyda - chynlluniau Car prydles a 'Cycle2Work'.
- Cynllun prynu car cynorthwyedig.
- Disgownt Ffordd o Fyw Buddion y Gweithiwr - cannoedd o ddisgowntiau mewn siopau a bwytai lleol a chenedlaethol, gwyliau a llawer mwy.
- Cyflogwr sy'n anelu i gyrraedd y safon uchaf wrth reoli iechyd, diogelwch a lles ei staff.

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig pecyn cyflogaeth atyniadol, mwy o wybodaeth ar gael ar **www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi**

Os oes gennych ddull positif o weithio mewn tîm i ddarparu gwasanaeth ac yn dymuno gweithio yn sir brydferth Gwynedd, dyma gyfle gwych i ddatblygu eich sgiliau a chael gwir effaith wrth wella ein gwasanaethau.





# Swydd Ddisgrifiad

**Pwrpas y Swydd**

- Sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud.
- Cynorthwyo’r Rheolwr Rheolaeth Adeiladu gyda gweinyddiaeth a gorfodaeth y Rheoliadau Adeiladu 2010 cyfredol Deddf Adeiladu 1984 a Deddf Diogelwch Adeiladu 2022 o dan oruchwyliaeth uniongyrchol Arweinydd y Tîm Rheoli Adeiladu, er mwyn sicrhau gwasanaeth effeithlon, cost-effeithiol, rhagweithiol ac atebol. Cynorthwyo a chefnogi'r Arweinydd Tîm Rheolaeth Adeiladu i sicrhau bod staff yn y Tîm wedi'u cofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladu BSR (neu gyfwerth) fel Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig (RBI) a sicrhau bod dosbarthiadau a chwmpas gweithgareddau ardystiedig / cofrestredig yn cael eu darparu yn unol â'r gofynion cyfreithiol ac o fewn cwmpas trwydded gofrestru'r Swyddog(ion) oni bai eu bod yn cael eu goruchwylio yn unol â'r Gwasanaeth Rheoli Adeiladu – Polisi Goruchwylio.
- Gweithredu o fewn polisïau’r Cyngor i sicrhau bod y targedau perfformiad a’r Cynllun Busnes yn cael eu cwrdd yn llawn.
- Arwain a goruchwylio sefyllfaoedd Strwythurau Peryglus dan Adran 77 a 78, Hysbysiadau Dymchwel dan Adran 80 ac 81, ac A79 (Adeiladau dinistriol a dadfeiledig) Masnachol y Ddeddf Adeiladu 1984.



**Cyfrifoldeb am swyddogaethau. e.e. staff, cyllidebau, offer**

- Cynorthwyo'r Arweinydd Tîm Rheolaeth Adeiladu i gyflawni dyletswyddau gan gynnwys mentora, goruchwylio a hyfforddi, Syrfewyr Rheoli Adeiladu dan Hyfforddiant/Cynorthwyol yn unol â dosbarthiadau a chwmpas gweithgareddau ardystiedig, Cynllun y Gweithlu Rheoli Adeiladu a'r Polisi Goruchwylio.
- Dirprwyo ar gyfer Arweinydd y Tîm Rheoli Adeiladu yn eu habsenoldeb.
- Cynorthwyo i sicrhau bod yr uned a'r gwasanaeth yn bodloni targedau'r uned, yr adran a'r Cyngor mewn perthynas â materion perfformiad ac ariannol.
- Sicrhau bod ffioedd Rheoliadau Adeiladu cywir yn cael eu dyfynnu i'r cwsmer.
- Cyfrifoldeb am gerbyd(au) y Cyngor, offer syrfeio pan fydd yn cael ei ddefnyddio, ac Offer Diogelu Personol.
- Cynorthwyo'r Uwch Dîm Rheoli wrth weithredu/ gwellhad parhaus o systemau a gweithdrefnau TG effeithiol, yn cynnwys LABC ISO 9001:2015 QMS.
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor. Sicrhau yr ymdrinnir â gwybodaeth bersonol mewn modd sy’n cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data.

## Prif Ddyletswyddau

Prosesu ceisiadau Rheoleiddio Adeiladu, cynnal arolygiadau safle a dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill i sicrhau bod y gweithgareddau ardystiedig / cofrestredig yn cael eu cynnal o fewn cwmpas y drwydded gofrestru berthnasol ac yn unol â chod ymddygiad BSR (neu gyfwerth) fel Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig (RBI).

Monitro a goruchwylio'r Hyfforddai / Arolygydd Adeiladu Cynorthwyol a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu – Polisi Goruchwylio a sicrhau eu bod yn atebol am gwmpas y gweithgareddau yn eu trwyddedau cofrestru.

**Ceisiadau Rheoleiddio Adeiladu**

- Cais cynlluniau llawn - Cynnal archwiliad cynllun (fetio) o luniadau/manyleb bensaernïol a gwybodaeth berthnasol arall i asesu ei gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Adeiladu a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig, ac i ofyn am wybodaeth ychwanegol lle mae gwybodaeth yn ddiffygiol.
- Ymgynghori â swyddog tân ar ddulliau dianc a rhagofalon tân, ac ymgyngoreion statudol eraill.
- Argymhelliad o benderfyniad ar y cais - penderfyniadau a wneir o fewn cyfnodau o amser statudol.
- Gwiriad ceisiadau hysbysiad adeiladu, rheoleiddio a gwrthdroi, a gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol i sicrhau cydymffurfiaeth.
- Asesu a oes angen cyfrifiadau strwythurol sylweddol ar gynlluniau/hysbysiadau adeiladu a adneuwyd.
- Syrfëwr arweiniol ar gyfer cwmni partner o dan Gynllun Partner yr LABC ar gyfer cleientiaid ymroddedig yn unol â chyfarwyddyd Arweinydd y Tîm Rheoli Adeiladu.



**Prif Ddyletswyddau (parhau)**

**Archwiliadau safle**

- Cynnal arolygiadau safle ar gymhwyso'r Rheoliadau Adeiladu a chyn-geisiadau lle bo angen.
- Rheoli ardal yng Ngwynedd ar gyfer archwiliadau safle, cynnal arolygiadau safle o'r gwaith adeiladu ar y gweill o ddechrau'r gwaith hyd at ei gwblhau, gan gynnwys rheoli gwaith adeiladu anawdurdodedig.
- Archwiliadau trawsffiniol lle bo angen o dan waith Partneriaeth yr LABC.
- Cadw cofnodion cywir a chyfredol o arolygiadau safle trwy'r system weithio unedau Agile.
- Ymchwilio i waith adeiladu anawdurdodedig gan gynnwys cynnal arolygiadau mewn perthynas â thorri posibl i'r Rheoliadau Adeiladu. Cynnal ymgynghoriadau fel y bo'n briodol ac adrodd canfyddiadau unrhyw ymchwiliadau o'r fath i Arweinydd y Tîm Rheolaeth Adeiladu.
- Argymhelliad o gwblhau'r gwaith adeiladu yn foddhaol – tystysgrifau cwblhau i'w cyhoeddi o fewn y dyddiad targed.
- Cynnal archwiliadau o strwythurau peryglus, ac i gynghori partïon eraill i gymryd camau fel y bo'n briodol i sicrhau bod adeilad/strwythur yn ddiogel.
- Ymdrin â hysbysiadau dymchwel ac ymgymryd ag archwiliadau safle i sicrhau bod gwaith dymchwel yn cael ei wneud yn unol â Hysbysiadau adran 80/81 lle bo angen.
- Cymryd rhan ac os oes angen arwain mewn cyfarfodydd safle i gynorthwyo'r Awdurdod Tân ac adrannau eraill y Cyngor lle bo angen.



## Dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill

- Darparu cyngor cyn ymgeisio i gwsmeriaid, gan hyrwyddo'r gwasanaeth a chynorthwyo i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Adeiladu.
- Darparu cyngor i'r cyhoedd, aelodau a chydweithwyr ar y broses reoleiddio adeiladu a gofynion technegol.
- Hyrwyddo'r gwasanaeth rheolaeth adeiladu yn gyffredinol i gwsmeriaid newydd presennol a darpar gwsmeriaid newydd i gynnal a denu busnes.
- Gwella boddhad cleientiaid a chynnal perthnasoedd effeithiol â rhanddeiliaid eraill fel cydweithwyr, y cyhoedd ac aelodau.
- Paratoi prawf o dystiolaeth/datganiadau tystion ac i fynychu'r Llys yn ôl yr angen i weithredu fel tyst proffesiynol i roi tystiolaeth mewn achosion Llys.
- Gweithio ar y cyd â thimau eraill o fewn y Cyngor, yn enwedig gyda Chynllunio, Tai Diogelu'r Cyhoedd a chartrefi gwag ynghylch gorfodi a chyngor angenrheidiol.
- Delio ag ymholiadau gan Gyfreithwyr ar werthu tir ac adeiladau ac ymateb iddynt.
- Delio â Chwiliadau Tir pan fo angen.
- Unrhyw gais rhesymol arall gan Arweinydd y Tîm Rheolaeth Adeiladu neu'r Rheolwr Rheolaeth Adeiladu.
- Sicrhau hunan-ddatblygiad a hyfforddiant i lefel cymhwysedd priodol a dosbarth cofrestru BSR yn unol â Chynllun Gweithlu y Gwasanaeth Rheoli Adeiladu.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Iechyd a Diogelwch yn y gweithle yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor.
- Gweithredu o fewn polisïau'r Cyngor mewn perthynas â chyfle cyfartal a chydraddoldeb.
- Yn gyfrifol am reoli gwybodaeth yn unol â chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor.
- Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.

**Dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill**

- Ymrwymiad i leihau allyriadau carbon y Cyngor yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon, ac i annog eraill i weithredu'n gadarnhaol tuag at leihau Ôl Troed Carbon y Cyngor.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd resymol arall sy'n cyfateb i lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd.
- Cyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn agored i niwed yn cael ei gam-drin.

**Amgylchiadau Arbennig. e.e. yr angen i weithio oriau anghymdeithasol, trefniadau gwaith arbennig ac ati**

- Bydd angen i ddeilydd y swydd weithio mewn modd Agile, gyda gofyniad i ymweld â safleoedd adeiladu a weithredir ac a reolir gan gontractwyr preifat.
- Bydd deilydd y swydd yn datblygu sgiliau mewn asesiad risg dynameg o safleoedd i sicrhau eu bod yn ddiogel i gael mynediad iddynt i ddibenion cynnal archwiliadau.
- Disgwylir i ddeilydd y swydd yn ddyddiol i ddefnyddio cryn dipyn ar PC/Gliniadur.
- Disgwylir i ddeilydd y swydd weithio mewn modd hyblyg ar draws y tasgau a lleoliadau ar draws y Cyngor.
- Bydd peryglon arferol yn gysylltiedig gyda gweithrediadau ar safleoedd yn cynnwys gweithio mewn ffosydd, ar uchder ar ysgolion, a bod yn agored i ddeunyddiau peryglus, ond gydag offer diogelu personol addas ar gael.
- Mae'n bosib y bydd yn gorfod wynebu sefyllfaoedd gwrthdrawol.
- Bydd mewn cerbyd, yn gyrru ymhob tywydd. Bydd yn gorfod gwisgo dillad gwarchod addas.
- Gweithio'n Unigol.
- Mewn Ymchwiliadau Cyhoeddus ac ati, y gofyn i weithio y tu allan i oriau swyddfa.
- Galwadau i weithio tu allan i oriau o ran bod ar alwad a galwadau i fynd i weld strwythurau peryglus pan fo angen.



# Manylion y Person

**Nodweddion Personol**

**Hanfodol** - Sgiliau gwaith tîm da, sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da, sgiliau dadansoddi cryf, dibynadwy gydag agwedd gref tuag at waith, agwedd aeddfed a phroffesiynol, y gallu i addasu a hyblygrwydd yn y rôl.

**Cymwysterau a Hyfforddiant Perthnasol**

**Hanfodol** - Arolygydd Adeiladu Cofrestredig (RBI) dosbarth Domestig 2A neu 2F gyda'r BSR.
Isafswm HND/HNC, mewn cymhwyster sy'n gysylltiedig ag Astudiaethau Adeiladu neu gyfwerth.
**Dymunol** - Aelod siartredig o RICS, CABE neu CIOB yn y ddisgyblaeth Rheolaeth Adeiladu. Gradd mewn Rheoli Adeiladu neu Arolygu Adeiladau. Cymhwyster LABC Lefel 4,5 a 6.

**Profiad Perthnasol**

**Hanfodol** - Profiad yn y gwaith a wnaed fel Syrfëwr Rheoli Adeiladu Cofrestredig. Profiad mewn strwythurau peryglus, a deddfwriaeth gorfodi. Sgiliau rhyngbersonol da, y gallu i reoli eu llwyth gwaith eu hunain, sgiliau TG da a phrofiad gyda meddalwedd system Rheolaeth Adeiladu.
**Dymunol** - Profiad o gynnal asesiadau ar ddiogelwch ar feysydd chwaraeon. Profiad / gwybodaeth o ISO 9001, neu systemau rheoli ansawdd tebyg.

**Sgiliau a Gwybodaeth Arbenigol**

**Hanfodol** - Dealltwriaeth o Reoliadau Adeiladu (Diwygiedig) 2025 Cymru, Deddf Adeiladu 1984, Deddf Diogelwch Adeiladu 2022, a Deddfwriaeth Gysylltiedig Gwybodaeth a phrofiad mewn strwythurau peryglus a deddfwriaeth gorfodi. Sgiliau rhyngbersonol da, y gallu i reoli eu llwyth gwaith eu hunain, Trwydded yrru lawn a mynediad at gar, y gallu i weithio o dan bwysau.
**Dymunol** - Profiad deddfwriaeth Diogelwch Tân. Profiad Asesiad SAP. Gwybodaeth o ISO 9001, neu systemau rheoli ansawdd tebyg.



# Gofynion Iaith

**Gwrando a Siarad**
Yn gallu ymdrin â holl agweddau'r swydd yn llafar mewn modd hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Darllen a Deall**
Yn gallu defnyddio a dehongli unrhyw wybodaeth yn gywir o amrywiaeth eang o ffynonellau, yn y Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn gallu ymdrin â phob agwedd o'r swydd.

**Ysgrifennu**
Yn gallu cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn hollol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio'r iaith a'r arddull fwyaf priodol i gwrdd ag anghenion y darllenydd.

Cymraeg

# Sut i wneud cais

I ymgeisio am y swydd, ewch i **www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi**

Gofynnwn i chi adolygu'r Swydd Ddisgrifiad a'r Manylion Person a chwblhau eich cais yn unol â'r gofynion.

Ceisiadau i'w cyflwyno erbyn 12 hanner dydd ddydd Gwener, 24 Gorffennaf 2026. Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal yn fuan wedi hynny.

Am ymholiadau anffurfiol, cysylltwch â Martin Barrow Evans ar 01341 424396 / 07917 557701 neu e-bostio: martinbarrowevans@gwynedd.llyw.cymru

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses neu addasiadau rhesymol cysylltwch â DesgAdnoddauDynol@gwynedd.llyw.cymru



LABC

Rheolaeth Adeiladu

CYNGOR GWYNEDD